

# Adroddiad ar Strategaeth Ryngwladol Ddrafft Llywodraeth Cymru

Rhagfyr 2019

## Cefndir

1. Yn ein hadroddiad ar berthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol, fe wnaethom ni alw am strategaeth newydd ac uchelgeisiol ar gyfer sut y mae Cymru'n ymgysylltu â'r byd. Yn dilyn ei phenodiad, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol mai ei bwriad oedd cyflwyno strategaeth ryngwladol newydd, a gyhoeddwyd ar ffurf ddrafft ar 31 Gorffennaf 2019.
2. Yna, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y strategaeth, a chyhoeddodd grynodedb o'r ymatebion ar 22 Tachwedd 2019.
3. Mae gan y strategaeth dri nod allweddol:
  - codi proffil rhyngwladol Cymru;
  - cynyddu allforion a mewnfuddsoddiad; ac
  - arddangos Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

## Casglu tystiolaeth

4. Er mwyn llywio ein gwaith ar y strategaeth ryngwladol ddrafft, fe wnaethom ni gynnal sesiynau craffu gyda'r Gweinidog ar 10 Mehefin, 23 Medi ac 18 Tachwedd 2019. Fe wnaethom ni hefyd gynnal trafodaeth bord gron gyda phanel o arbenigwyr ar 21 Hydref 2019, a oedd yn cynnwys:
  - Dr Kirsty Hughes - Canolfan Cysylltiadau Ewropeaidd yr Alban;
  - Dr Rachel Minto - Prifysgol Caerdydd;



- Dr Elin Royles - Prifysgol Aberystwyth; a
- Susie Ventris-Field - Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru.

**5.** Fe wnaeth y sesiynau hyn ein galluogi i adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth sylweddol a gafwyd fel rhan o'n gwaith blaenorol ar berthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol. Roedd canfyddiadau'r adroddiad hwnnw'n cynnwys yr angen am strategaeth newydd, gyda thargedau mesuradwy; yr angen i gydgyssylltu gweithgareddau ar draws y Llywodraeth mewn ffordd sy'n cynnwys cymdeithas sifil; a nodi sut y dylai Llywodraeth Cymru edrych eto ar waith y swyddfeydd rhyngwladol yng ngoleuni Brexit a newidiadau ehangach.

**6.** Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

## 1. Nodau a blaenoriaethau'r strategaeth ddrafft

### Dull cyffredinol

**7.** Fel yr amlinellwyd uchod, mae gan y strategaeth ddrafft dri nod bras: codi proffil rhyngwladol Cymru; cynyddu allforion a mewnfuddsoddiad; ac arddangos Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

**8.** Cytunodd Dr Kirsty Hughes a Dr Elin Royles y gallai'r strategaeth ddrafft fod yn fwy uchelgeisiol.<sup>1</sup> Dywedodd Dr Royles fod y strategaeth hefyd yn rhy ragnodol mewn manau, gan ddadlau bod angen i'r strategaeth roi mwy o ryddid. Dywedodd Dr Royles:

“[...]os ydym ni'n gwybod beth ydy'r egwyddorion y tu ôl i benderfyniadau, mae'n rhoi llawer mwy o hyblygrwydd yn hytrach na beth ydy'r cynlluniau penodol neu pa fath o gydweithio penodol iawn sy'n mynd i fod.”<sup>2</sup>

**9.** Yn ystod trafodaeth ein panel o arbenigwyr, fe wnaeth Dr Kirsty Hughes ddadlau mai'r hyn a oedd ar goll o'r ddogfen oedd “a clear European strategy that I would think should really be at the heart of an international strategy for a European country”.<sup>3</sup> Gwnaeth Dr Hughes gymariaethau rhwng strategaethau Bafaria a Quebec ar y naill ben i sbectrwm:

---

<sup>1</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraffau 119 a 125](#) – 21 Hydref 2019

<sup>2</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 132](#) – 21 Hydref 2019

<sup>3</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 106](#) – 21 Hydref 2019

“Bavaria has a very broad EU-influencing strategy, whereas if you look at Quebec, it's got a very trade and investment-focused strategy. And I wonder where you see your strategy lying on that spectrum. And maybe it's a little bit nearer the Quebec end than it needs to be. Nothing wrong with the Quebec strategy; it's just I think there's scope to add to it in the same way that maybe I'm saying there's scope to add to yours.”<sup>4</sup>

**10.** Dywedodd Dr Kirsty Hughes wrthym fod y strategaeth ddrafft yn dda o ran crynhoi nodweddion allweddol Cymru, ac yn benodol fe wnaeth hi ganmol y ffordd y mae atodiadau'r strategaeth yn dwyn ynghyd restr o rwydweithiau, blaenoriaethau a memoranda cyd-ddealltwriaeth mewn un lle.<sup>5</sup> Fodd bynnag, ychwanegodd fod yna lawer o feysydd lle gallai'r strategaeth fod yn fwy uchelgeisiol a dadleuodd fod y ddogfen efallai'n canolbwyntio gormod ar fasnach a buddsoddiad.<sup>6</sup>

**11.** Ar 22 Tachwedd 2019, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig i nodi cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad y cafodd Llywodraeth Cymru.<sup>7</sup> Yn y datganiad ysgrifenedig, amlinellodd y Gweinidog nifer o gamau ychwanegol yr oedd hi'n bwriadu eu cymryd, gan gynnwys cyflwyno “datganiad gweledigaeth ar ddechrau'r ddogfen i fynegi'r Gymru rydym yn disgwyl ei gweld mewn 5 mlynedd”.<sup>8</sup>

## Canolfannau rhagoriaeth

**12.** Ochr yn ochr â'r nodau hyn, mae'r strategaeth ddrafft yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn arddangos tri diwydiant gwahanol fel 'canolfannau rhagoriaeth', sef:

- seiberddiogelwch;
- lled-ddargludyddion cyfansawdd; a'r
- diwydiannau creadigol, yn benodol teledu a ffilm.

---

<sup>4</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 108](#) – 21 Hydref 2019

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 118](#) – 21 Hydref 2019

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 119](#) – 21 Hydref 2019

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig 'Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Ryngwladol ddrafft i Gymru' – 22 Tachwedd 2019

<sup>8</sup> Ibid.

**13.** Yn ystod ein sesiwn ar 23 Medi, esboniodd y Gweinidog fod y rhesymeg dros ddewis y tri sector hyn yn cynnwys newid y canfyddiad o Gymru a chysylltu â blaenoriaethau'r dinas-ranbarthau a'r cynllun gweithredu economaidd.<sup>9</sup>

**14.** Mewn gohebiaeth bellach i'r Pwyllgor ar 5 Tachwedd, dywedodd y Gweinidog:

“Bydd y diwydiannau allweddol yn ein helpu i dynnu sylw'r byd at y sgiliau a'r rhagoriaeth sydd ar gael yng Nghymru. Hefyd, maent yn feysydd lle mae arbenigedd eisoes yn bodoli yng Nghymru; lle mae cwmnïau eisoes yn flaenllaw ym meysydd cynhyrchu a datblygu. Mae yma seiliau cadarn sy'n caniatáu inni ddatblygu ein rhagoriaeth a'n potensial sylweddoli sicrhau twf yn y tri maes penodol hyn, yn wyneb yr heriau a allai godi yn sgil Brexit.”<sup>10</sup>

**15.** Yn y datganiad ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog:

“Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno'n llawn neu'n rhannol gyda'r dewis o dair canolfan ragoriaeth, roedd cytundeb cryf bod angen mwy o eglurder ynglŷn â pham y dewiswyd y sectorau hyn. Dywedodd amryw o'r ymatebwyr hefyd y gallai'r dull hwn ymddangos yn gyfyngol o ran denu buddsoddiad o sectorau eraill a chefnogi ymchwil a datblygu.”<sup>11</sup>

**16.** Yn ystod ein sesiwn bord gron, mynegodd Susie Ventriss-Field bryderon ynghylch ymrwymiad dwy o'r canolfannau rhagoriaeth i werthoedd a hawliau. Yn benodol, nododd fod gan y diwydiant seiberddiogelwch rai cysylltiadau â chwmnïau sydd efallai heb hanes cryf ynghylch materion hawliau dynol.<sup>12</sup>

**17.** Cwestiynodd Dr Rachel Minto o Brifysgol Caerdydd sut y byddai'r canolfannau rhagoriaeth yn cyd-fynd â nodau cydraddoldeb Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.<sup>13</sup>

---

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraffau 27 a 29](#) – 23 Medi 2019

<sup>10</sup> [Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol](#) – nodwyd ar 11 Tachwedd

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig 'Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Ryngwladol ddrafft i Gymru'](#) – 22 Tachwedd 2019

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 149](#) – 21 Hydref 2019

<sup>13</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 152](#) – 21 Hydref 2019

---

**18.** Dywedodd Dr Elin Royles wrthym fod yna risgiau o fod mor rhagnodol, gan ddadlau o blaid dull gweithredu a fyddai'n nodi meini prawf ar gyfer nodi pa sectorau neu ddiwydiannau i'w blaenoriaethu.<sup>14</sup>

**19.** O ran cyd-destun ehangach Brexit, a datblygu'r strategaeth, gan gynnwys y rhesymeg dros ddewis y tair canolfan ragoriaeth, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“[...]one of the things that I've been looking to do is to see how we can Brexit-proof this international strategy. It's a really difficult time to be writing an international strategy, when you have no idea what the relationship with your nearest neighbours is going to be. And, so, what I've been trying to, in particular in relation to inward investment, is to say 'Look, where are the areas that we have genuine global leadership? Where are the areas where, irrespective of what happens with Brexit, we will not be impacted in those specific areas?' I've been looking at what those areas are, and technology is key. They are some of the areas that I'm looking at, but it will be much more specific than that.”<sup>15</sup>

**20.** Yn ei datganiad ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog y byddai'r tair canolfan ragoriaeth a nodwyd yn parhau yn dilyn yr ymgynghoriad, ond y byddai mwy o wybodaeth am y rhesymeg dros ddewis y rhain yn cael ei chynnwys yn y ddogfen.<sup>16</sup>

## Ein barn ni

---

**21.** Rydym yn cytuno'n fras â'r tri nod a nodwyd yn y strategaeth. Fodd bynnag, rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid y gallai'r ddogfen fod yn fwy uchelgeisiol. Rydym yn nodi bod y Gweinidog yn bwriadu cynnwys datganiad gweledigaeth yn y strategaeth derfynol ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at fynd i'r afael â'r pryder hwn.

**22.** Yn unol â chanfyddiadau ein hadroddiad blaenorol, rydym yn credu y gellid gwneud mwy i wneud y gorau o botensial pŵer meddal Cymru, yn enwedig o ran asedau penodol Cymru, fel yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Felly byddem yn disgwyl i'r strategaeth derfynol adlewyrchu hyn yn well.

---

<sup>14</sup> Record of Proceedings, [paragraff 155 and 141](#) – 21 Hydref 2019

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 30](#) – 10 Mehefin 2019

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig '[Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Ryngwladol ddrafft i Cymru](#)' – 22 Tachwedd 2019

---

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod datganiad gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn rhoi darlun clir o'r 'gyrchfan derfynol' a ragwelir gan y Llywodraeth ar ddiwedd oes y strategaeth. Dylai nodi'n glir y canlyniadau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio'u cyflawni drwy'r strategaeth.

**23.** Rydym yn nodi'r effaith y mae ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit yn ei chael ar y dasg o ddatblygu strategaeth ryngwladol newydd Llywodraeth Cymru. At hynny, rydym yn nodi mai un o'r rhesymau dros ddewis y canolfannau rhagoriaeth oedd eu bod yn gwrthsefyll effeithiau Brexit. Rydym yn pryderu am y goblygiadau y gallai'r penderfyniad hwn eu cael ar sectorau eraill o'r economi lle gall Cymru ddangos arweinyddiaeth fyd-eang, er enghraifft ym maes gweithgynhyrchu uwch ac addysg uwch.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n bwriadu sicrhau bod sectorau eraill o'r economi, lle gall Cymru ddangos arweinyddiaeth fyd-eang, yn cael eu cynrychioli'n ddigonol gan Lywodraeth Cymru yn ei gweithgareddau rhyngwladol.

## 2. Cydgysylltu a chyflawni

### Cydgysylltu ar draws y Llywodraeth

**24.** Roedd yr angen i sicrhau cydgysylltiad effeithiol rhwng y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol a Gweinidogion eraill Llywodraeth Cymru yn agwedd bwysig ar ein hadroddiad ar berthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol. I'r perwyl hwnnw, ein hargymhelliad oedd sefydlu mecanwaith ffurfiol, fel is-bwyllgor y Cabinet. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn 'mewn egwyddor', gan nodi, o ystyried pwysigrwydd yr agenda a'i lledaeniad ar draws llawer o feysydd portffolio, fod angen ystyried opsiynau eraill gan gynnwys yr opsiwn ar gyfer caniatáu trafodaethau Cabinet llawn ar ryngwladoli.<sup>17</sup>

**25.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 18 Tachwedd, dywedodd y Gweinidog bod yn well ganddi gynnal cyfarfodydd dwyochrog dwys gyda Gweinidogion y Cabinet, a phwysleisiodd, o ran cydgysylltu'r rôl honno, y bydd hynny'n digwydd ar lefel y Cabinet.<sup>18</sup>

---

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru [Ymateb i'r Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Perthynas Cymru ag Ewrop a'r Byd yn y dyfodol](#)

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 62](#) – 18 Tachwedd 2019

**26.** Nododd Dr Elin Royles fod “cydlynu gyda pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, a chydlynu o fewn y strategaeth ei hun” yn faes lle'r oedd y ddogfen “ddim mor gryf ag y [gallai] fod”.<sup>19</sup>

### Cydgysylltu ar draws cymdeithas sifil a diwydiant

**27.** Er mwyn monitro gweithgaredd rhyngwladol, mae'r strategaeth ddrafft yn nodi:

“Byddwn yn cynnal dau gyfarfod y flwyddyn i sicrhau ein bod yn cydlynu'n gweithgareddau ar draws Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, megis llywodraeth leol a'r gymdeithas ddinesig, er mwyn sicrhau, pan fo'n bosibl ac yn briodol, ein bod yn gallu adeiladu ar brofiad a llwyfannau rhyngwladol ein gilydd.”<sup>20</sup>

**28.** Mae Atodiad A y strategaeth ddrafft yn darparu rhestr nad yw'n gynhwysfawr o rwydweithiau a chytundebau rhyngwladol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u llofnodi, ac yn nodi y bydd y rhestr yn cael “ei hadolygu wrth i fanylion terfynol perthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd gael eu pennu”.<sup>21</sup>

**29.** Yn ystod ein sesiwn bord gron, dywedodd Dr Rachel Minto ei bod am ddeall yn well sut roedd y strategaeth yn mynd i ganiatáu i ddinasyddion a sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru ymgysylltu â'r 'arena ryngwladol'.<sup>22</sup>

**30.** Yn yr un modd, nododd Dr Elin Royles fod y strategaeth yn canolbwyntio “mwy ar beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud” a thynnodd sylw at yr enghraifft o berthynas Cymru â Fflandrys. Dywedodd Dr Royles:

“Beth sydd gennym ni ddim yn y strategaeth yma ydy amlinellu'r ystod o gyrff. Mae'r ffocws fan hyn efallai mwy ar beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud, ac felly dyw e ddim wedi cwmpasu'r math o weithgarwch y mae cyrff eraill yn ei gyfrannu. Mae pethau fel y berthynas efo Flanders. Mae Llywodraeth Cymru bellach, wrth gwrs, yn rhan ganolog o'r ymwneud yma ac mae yna gymaint o gyswllt agos wedi bod rhwng gwahanol gyrff diwylliannol. Ac, wrth gwrs, mae hyn i gyd hefyd yn

---

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 112](#) – 21 Hydreg 2019

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Ryngwladol – drafft ymgynghori](#)

<sup>21</sup> Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Ryngwladol – drafft ymgynghori](#)

<sup>22</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 98](#) – 21 Hydref 2019

dangos yr ystod o gyrff cymdeithas sifil sy'n rhan o'r gweithgarwch rhyngwladol ac Ewropeaidd yma.”<sup>23</sup>

## Cydgysylltu a chyflawni ar lefel y DU

**31.** Un o'r nodau y mae'r Gweinidog wedi'i ddatgan ar gyfer y strategaeth yw gweithio gyda Llywodraeth y DU ac asiantaethau'r DU i hyrwyddo buddiannau Cymru dramor. Yn ystod sesiwn graffu gyda'r Gweinidog ar 10 Mehefin 2019, dywedodd y Gweinidog:

“[...]I'm very, very keen to see the UK Government do a lot more for Wales, but I think if we were being fair, we perhaps needed to give them clarity in terms of what we want them to sell. That's what I'm hoping that this strategy will do, is to give absolute clarity to them in terms of the messages we want them to give. And once we've got that clarity, I will be demanding a lot more, not just from the UK Government, but some of the agencies that work for the UK Government—so your British Council and other organisations as well[...].”<sup>24</sup>

**32.** Mae'r strategaeth ddrafft ei hun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru “yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'i hasiantaethau i sicrhau bod ein strategaeth a'n negeseuon unigryw Gymreig yn cael eu gwireddu a'u bod yn gyson, lle bo modd, â strategaethau a pholisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig”.<sup>25</sup>

**33.** Yn ei thystiolaeth, tynnodd Dr Elin Royles sylw at bryderon ynghylch y mecanweithiau ar gyfer cydgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y maes hwn. Dywedodd Dr Royles:

“Mae'r strategaeth yn cydnabod bod rôl y Deyrnas Unedig mewn eirioli a hyrwyddo Cymru dramor yn bwysig, ond mae ychydig yn wan weithiau o ran sut i sicrhau bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gwahanol asiantaethau'n mynd i wneud hynna.”<sup>26</sup>

---

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 175](#) – 21 Hydref 2019

<sup>24</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 175](#) – 21 Hydref 2019

<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Ryngwladol - drafft ymgynghori](#)

<sup>26</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 128](#) – 21 Hydref 2019

---



## Ein barn ni

---

**34.** Rydym yn ailadrodd ein barn y dylai'r Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol sefydlu mecanwaith ffurfiol ar gyfer cydgysylltu gwaith cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru drwy greu is-bwyllgor y Cabinet, a hynny i ddod â Gweinidogion o bortffolios perthnasol eraill ynghyd.

**35.** Rydym yn cefnogi'r nod y mae'r Gweinidog yn ei ddatgan i sicrhau mwy o gydgysylltu â Llywodraeth y DU ac asiantaethau'r DU yn y maes rhyngwladol, gan gynnwys o leiaf 5 y cant o gynrychiolaeth (i adlewyrchu cyfran poblogaeth Cymru yn y DU). Fodd bynnag, byddem yn croesawu mwy o fanylion am sut yn union y mae'r Gweinidog yn bwriadu gwneud hyn. Byddem hefyd yn croesawu eglurder ynghylch a fydd Llywodraeth y DU ac asiantaethau'r DU yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau cyflawni, ac a yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i asiantaethau'r DU arwain ar unrhyw un o'r camau a fydd ynddynt.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau bod ei gweithgareddau cysylltiadau rhyngwladol yn cael eu cydgysylltu'n well o fewn Llywodraeth Cymru a chyda gweithgareddau Llywodraeth y DU ac asiantaethau'r DU, ac a oes angen mecanwaith ffurfiol i gyflawni'r nod hwn.

**36.** Rydym yn cytuno â barn y tystion y bydd gan gymdeithas sifil a sefydliadau eraill ran bwysig i'w chwarae yn y strategaeth.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymhell bod y strategaeth derfynol yn nodi'n fanylach sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau cymdeithas sifil sy'n dymuno cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth.

## Cyflawni'r strategaeth

**37.** O ran ei chyflawni, roedd argymhelliad 3 yn ein hadroddiad blaenorol yn nodi y dylai cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol ddod gyda strategaeth ryngwladol newydd fel bod modd mesur cynnydd yn erbyn amcanion strategaeth newydd yn flynyddol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

**38.** Yn ei datganiad yn lansio'r strategaeth ddrafft, dywedodd y Gweinidog:

“Bydd y strategaeth yn cael ei chefnogi gan gynlluniau cyflawni a fydd yn cynnwys targedau a chymau gweithredu allweddol. Fodd bynnag,

mae'n amhosibl cynnwys targedau ar hyn o bryd oherwydd yr ansicrwydd presennol ynghylch canlyniad Brexit.”<sup>27</sup>

**39.** Dywedodd Dr Elin Royles a Susie Ventris-Field fod y strategaeth braidd yn anghyson o ran y ffordd y mae'n cyfuno'r nodau strategol â chamau gweithredu penodol. Dywedodd Susie Ventris-Field: “It tries to be very ambitious with some quite vague statements, but then very specific in some of the details, and maybe just a good example would be on the section that's on Wales for Africa”.<sup>28</sup> Ychwanegodd:

“You can have delivery plans that sit under a strategy that are year on year or longer term that would deal with those detailed issues. So, it does feel like that's where it's falling down a little bit; it's not quite pitching at the level of strategy, really.”<sup>29</sup>

**40.** Yn yr un modd, dywedodd Dr Elin Royles ei bod braidd yn amwys o ran y camau gweithredu, gan ddadlau bod modd rhagweld y bydd nifer o gynlluniau gweithredu sectoraidd yn dod allan o'r ddogfen, ond ei bod yn eithaf aneglur ynghylch yr hyn y mae am ei wneud. Ychwanegodd Dr Royles fod y strategaeth efallai'n ceisio cyfuno'r ddau ychydig yn ormod.<sup>30</sup>

**41.** Pwysleisiodd Susie Ventris-Field yr angen am waith craffu ac adolygu effeithiol ar weithredu'r strategaeth.<sup>31</sup>

**42.** Roedd datganiad y Gweinidog yn lansio'r ymgynghoriad ar y strategaeth ryngwladol ddrafft, ym mis Gorffennaf 2019, yn nodi y byddai'r strategaeth yn cael ei chefnogi gan 'gynlluniau cyflawni a fydd yn cynnwys targedau a chamau gweithredu allweddol'.<sup>32</sup>

**43.** Ar 18 Tachwedd, dywedodd y Gweinidog wrthym mai'r bwriad oedd canolbwyntio ar gyhoeddi'r strategaeth ym mis Ionawr 2020 ac na fyddai Llywodraeth Cymru yn mynd i fanylder ynghylch cyflawni'r cynlluniau nawr.<sup>33</sup>

---

<sup>27</sup> Datganiad Ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, [Ymgynghoriad ar y Strategaeth Ryngwladol](#), - 31 Gorffennaf 2019

<sup>28</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 136](#) - 21 Hydref 2019

<sup>29</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 137](#) - 21 Hydref 2019

<sup>30</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 138](#) - 21 Hydref 2019

<sup>31</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 205](#) - 21 Hydref 2019

<sup>32</sup> Datganiad Ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, [Ymgynghoriad ar y Strategaeth Ryngwladol](#), - 31 Gorffennaf 2019

<sup>33</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 127](#) - 18 Tachwedd 2019

**44.** Roedd ein hadroddiad ar berthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y dyfodol hefyd yn galw am gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol i gyd-fynd â'r strategaeth ryngwladol fel bod modd mesur cynnydd yn erbyn amcanion strategaeth newydd yn flynyddol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru. Ni chafodd y rhain eu cynnwys yn y strategaeth ryngwladol ddrafft, ond rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi cynlluniau cyflawni.

Ein barn ni

---

**45.** Mae'n amlwg i ni y bydd angen ymdrech ar draws Llywodraeth Cymru a chymdeithas sifil ehangach i weithredu a chyflawni'r strategaeth.

**46.** Rydym yn cydnabod bod yr ansicrwydd y mae Brexit yn ei achosi a newidiadau posibl ym mholisi Llywodraeth y DU yn gwneud pennu sefydlu targedau yn heriol. Fodd bynnag, rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod cyfres o bwyntiau gweithredu mesuradwy yn cyd-fynd â'r strategaeth fel bod modd craffu'n briodol ar weithrediad y strategaeth.

**47.** Rydym yn cydnabod bwriad Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio'n syth ar gyhoeddi'r strategaeth ryngwladol erbyn Ionawr 2020. Fodd bynnag, rydym yn credu y bydd cyhoeddi'r cynlluniau cyflawni yn bwysig i lwyddiant y strategaeth, a bydd sicrwydd o ran yr amserlen ar gyfer eu cyhoeddi yn bwysig i bob sefydliad sy'n dymuno cydweithredu â Llywodraeth Cymru ynghylch eu cyflawni.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres fanwl o dargedau mesuradwy a phwyntiau gweithredu a fydd yn gorwedd o dan y strategaeth derfynol. Gallai'r rhain fod yn rhai blwyddyn ar flwyddyn er mwyn rhoi digon o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru addasu i newidiadau polisi ar lefel Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi yn ei hymateb i'r Pwyllgor yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r cynlluniau cyflawni.

### 3. Cysylltiadau rhyngwladol

#### Gwledydd a rhanbarthau â blaenoriaeth

**48.** Yn ein hadroddiad ym mis Chwefror 2019, fe wnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r perthnasau dwyochrog sydd ganddi ar hyn o

bryd er mwyn “asesu pa rai o'r perthnasau hyn y gellir eu cryfhau a'u dyfnhau yn y dyfodol, yn unol â blaenoriaethau strategol Cymru”.<sup>34</sup>

**49.** Amlinellodd Llywodraeth Cymru y cysylltiadau rhyngwladol y mae'n eu blaenoriaethu yn Atodiad B y strategaeth ddrafft. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n gysylltiadau â gwledydd â blaenoriaeth fel yr Almaen, Ffrainc ac UDA (a Gogledd America ehangach), a chysylltiadau is-wladwriaethol â Llydaw, Gwlad y Basg a Fflandrys.

**50.** Yn ystod tystiolaeth lafar, esboniodd y Gweinidog beth o'r rhesymeg y tu ôl i'r cysylltiadau â gwledydd â blaenoriaeth:

“[...] we want to focus on Germany, because that is our biggest export market and it's our second biggest inward investment market. There's actually a really strong German diaspora in Wales. So, those are really solid reasons why we would pick on that country.

The same thing in France—that's our second biggest export market. Ireland is our closest neighbour. All of that has been worked out with a very strong evidence base behind it. And the same thing with the United States—that's our biggest investor into Wales. Also, in some of the core areas we're looking at developing—cyber security, compound semiconductors and film and tv—there's a real strength in terms of industry in North America, so that's why we've done that.”<sup>35</sup>

## Swyddfeydd tramor

**51.** O ran swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, roedd argymhelliad 8 yn ein hadroddiad cynharach yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu dadansoddiad sylfaenol annibynnol o'r rhain, ac i'r dadansoddiad hwnnw gael ei ddefnyddio i oruchwylio'r gwaith o reoli perfformiad y swyddfeydd. Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn 'mewn egwyddor', gan nodi y byddai'r Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth bellach iddo wrth i'r strategaeth gael ei datblygu.<sup>36</sup>

**52.** Mae'r strategaeth ryngwladol ddrafft yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn “cyhoeddi cylch gwaith i'n swyddfeydd gan sicrhau bod amcanion yn cael eu

---

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, '[Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol](#)'. – Chwefror 2019

<sup>35</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraffau 24 a 25](#) – 23 Medi 2019

<sup>36</sup> Llywodraeth Cymru [Ymateb i'r Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Perthynas Cymru ag Ewrop a'r Byd yn y dyfodol](#)

hymgorffori mewn cynlluniau busnes er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i ymateb i faterion byd eang”.

**53.** Yn ystod tystiolaeth lafar, esboniodd y Gweinidog y byddai nodau ac amcanion pob swyddfa dramor yn amrywio o leoliad i leoliad.<sup>37</sup> Ymhellach, nododd y Gweinidog ei bod eisiau grymuso'r swyddfeydd tramor i'w galluogi i ymateb i gyfleoedd mewn ffordd hyblyg a rhagweithiol.<sup>38</sup>

**54.** Ar 21 Hydref, cafodd y Pwyllgor yr adroddiad chwarterol cyntaf ynghylch perfformiad swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data am berfformiad yn erbyn pum allbwn allweddol, ynghyd â datganiad o fwriad i'r allbynnau gael eu hehangu yn y dyfodol i gynnwys adnabod diaspora a chyfeillion Cymru ac ymgysylltu â nhw.

Ein barn ni

---

**55.** Rydym yn cytuno â'r dull cyffredinol o ran y swyddfeydd tramor, ond rydym yn nodi bod anghysondeb i'w weld yn y ffaith, er bod Gwlad y Basg yn cael ei nodi fel un o dair perthynas â blaenoriaeth, nad oes gan Lywodraeth Cymru bresenoldeb yn unman yng ngwladwriaeth sofran Sbaen.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu ym mha ffordd y mae wedi ystyried sefydlu presenoldeb parhaol yng Ngwlad y Basg, ac os nad yw wedi gwneud hynny, yn amlinellu pa gamau amgen y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod modd cryfhau'r berthynas os na fydd presenoldeb parhaol.

**56.** Byddem yn croesawu mwy o fanylion gan Lywodraeth Cymru ynghylch mesur perfformiad y swyddfeydd rhyngwladol, a sut mae eu gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r strategaeth derfynol. Rydym yn nodi bod yr adroddiad cyntaf o'r adroddiadau chwarterol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn datgan y bydd mesurau perfformiad ar gyfer swyddfeydd tramor yn y dyfodol yn cael eu diwygio i gyflawni yn erbyn amcanion y strategaeth ryngwladol. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch pryd a sut y bydd hyn yn cael ei wneud, ac ym mha adroddiad chwarterol y gallwn ddisgwyl gweld mesurau perfformiad diwygiedig.

---

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 132](#) – 23 Medi 2019

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 136-149](#) – 23 Medi 2019

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, yn amlinellu sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'n hargymhelliad 8 blaenorol wedi i'r strategaeth ryngwladol gael ei chwblhau.<sup>39</sup>

## Swyddfa Brwsel a chysylltiadau â'r UE yn y dyfodol

**57.** O ran swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel, mae'r strategaeth ddrafft yn nodi:

“Bydd cynnal cysylltiadau cryf ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd, wrth i'r Deyrnas Unedig barhau i negodi ymadael â'r UE, yn allweddol i lwyddiant y strategaeth. Bydd ein swyddfa ym Mrwsel yn chwarae rôl arwyddocaol.”<sup>40</sup>

**58.** Pwysleisiodd Dr Rachel Minto rôl wirioneddol bwysig swyddfa Brwsel o ran casglu gwybodaeth a cheisio dylanwadu ar bolisi, ac fel sylfaen ar gyfer ymgysylltu â rhwydweithiau Ewropeaidd.<sup>41</sup>

**59.** Dywedodd y Gweinidog fod y Llywodraeth yn ymrwymo'n gryf i swyddfa Brwsel ac amlygodd ei phwysigrwydd ehangach:

“Brussels is an international hub like very few others. So, if you think about the number of lobbyists, it has the second highest number of lobbyists in the world, and there's a reason for that. It's because it's an influential place. So, the Brussels office is not just about keeping tabs on the institutions and trying to influence those. It's a much broader role where, actually, we get access to major companies that are based in Brussels, where it's easier to access those people.

Obviously, in terms of forging the new relationship with the EU, post Brexit, if it comes to that, then we will want to influence what that relationship will look like, and understanding where Brussels is coming from in those negotiations will be important, and that Brussels office will be crucial for that.”<sup>42</sup>

---

<sup>39</sup> Roedd ein hargymhelliad 8 blaenorol yn galw ar Lywodraeth Cymru i “gomisiynu dadansoddiad llinell sylfaen annibynnol, er enghraifft gan Swyddfa Archwilio Cymru, o weithrediad swyddfeydd tramor y Llywodraeth”.

<sup>40</sup> Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Ryngwladol - drafft ymgynghori](#)

<sup>41</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 188](#) – 21 Hydref 2019

<sup>42</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraffau 62 a 63](#) – 10 Mehefin 2019

**60.** Yn fwy cyffredinol, dywedodd y Gweinidog wrthym am bwysigrwydd ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd ac Aelod-wladwriaethau yn y dyfodol:

"We've opened new offices in France and Germany, and I think that was really important to give a signal that, 'Listen, whatever's happening here, we are totally committed to our European neighbours.' I think we've, obviously, got to keep a watching brief on how things will pan out. Key for me is that we maintain our relationship with the EU as our top priority—that's where 60 per cent of our goods go. So, we need to just keep watching that space in particular, and we may need to think about how we respond in relation to possibly reinforcing our European presence in the light of what happens in relation to Brexit."<sup>43</sup>

**61.** Roedd ein hadroddiad blaenorol yn galw ar Lywodraeth Cymru i drafod gyda'r UE y posibilrwydd y bydd Cymru yn parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni cyllido Ewropeaidd a geir mewn meysydd datganoledig. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn 'mewn egwyddor', gan gydnabod ei bod yn bwysig i Gymru barhau i gael mynediad at nifer o bartneriaethau a rhwydweithiau (ac unrhyw olynwyr) ar ôl Brexit. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen Cymru-Iwerddon, Horizon 2020, ERASMUS+ ac Ewrop Greadigol.<sup>44</sup>

Ein barn ni

---

**62.** Rydym yn cytuno y bydd parhau i ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd ac Aelod-wladwriaethau unigol Ewrop yn rhan bwysig o weithgareddau cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit.

**63.** Rydym yn cefnogi buddsoddiad parhaus yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel, ond rydym yn cytuno y bydd angen edrych yn fwy strategol ar ei thasgau a'i gweithgareddau ar ôl pennu ffurf derfynol Brexit.

**64.** O ran cyfranogiad yn rhaglenni'r UE yn y dyfodol, byddem yn croesawu mwy o fanylion gan Lywodraeth Cymru am y camau y mae'n eu cymryd yn y maes hwn.

---

<sup>43</sup> Cofnod y Trafodion, [paragraff 76](#) – 18 Tachwedd 2019

<sup>44</sup> Llywodraeth Cymru [Ymateb i'r Argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Perthynas Cymru ag Ewrop a'r Byd yn y dyfodol](#)

---

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith archwilio y mae wedi'i wneud gyda'r Undeb Ewropeaidd ac eraill i sicrhau bod Cymru yn parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni Ewropeaidd, mewn meysydd datganoledig, ar ôl Brexit.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth derfynol gynnig eglurder am rôl a gweithgarwch swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel yn y dyfodol yng ngoleuni ffurf derfynol Brexit.